Cymru

# Eich atgyfeiriad brys oherwydd amheuaeth o ganser


CANCER RESEARCH UK

## Beth yw atgyfeiriad brys oherwydd amheuaeth o ganser?

Mae eich meddyg teulu, nyrs neu ddeintydd wedi trefnu i chi gael profion neu weld meddyg ysbyty (arbenigwr). Mae hyn er mwyn ymchwilio i'ch symptomau, darganfod beth sy'n bod ac a allai fod yn ganser.

### Nid yw mwy na 9 o bob 10 o bobl

sy'n cael eu hatgyfeirio fel hyn yn cael diagnosis o ganser.



Ni fydd gan y rhan fwyaf o bobl ganser, ond os yw gennych, mae diagnosis a thriniaeth gynnar yn bwysig. Byddwch yn cael eich apwyntiad cyn gynted â phosibl, ond efallai y bydd oedi. Mae'r GIG yn brysur iawn ar hyn o bryd. Efallai y bydd eich apwyntiad cyntaf dros y ffôn, yn alwad fideo, neu yn yr ysbyty. Mae staff yr ysbyty wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau ei fod yn lle ddiogel i ymweld ag ef.

**Gofynnwch i'ch meddyg teulu pryd rydych chi'n debygol o gael apwyntiad.**

## 1 Derbyn atgyfeiriad brys

- Efallai y cewch eich apwyntiad neu drwy'r post neu dros y ffôn. Os cewch alwad ffôn, efallai na fydd y rhif yn ymddangos. Atebwch os gwelwch yn dda.
- **Mae'n bwysig iawn eich bod yn mynychu'ch holl apwyntiadau a'ch profion.** Os na allwch fynychu, cysylltwch â'r ysbyty cyn gynted â phosibl i aildrefnu.
- Os bydd eich symptomau'n newid, yn gwaethygu neu os bydd symptomau newydd yn datblygu cysylltwch â'ch meddygfa.

### Gair i Gall

- Gwiriwch fod gan eich meddyg teulu eich manylion cyswllt presennol.
- Os na chewch fanylion eich apwyntiad o fewn 2 wythnos, cysylltwch â'ch meddygfa. Dywedwch wrthynt ei fod yn atgyfeiriad brys oherwydd amheuaeth o ganser.

## 2 Mynd i'ch apwyntiad

- Efallai y cewch eich anfon yn syth am brofion, neu efallai y byddwch yn siarad ag arbenigwr yn gyntaf.
- Peidiwch â mynychu os oes gennych symptomau COVID-19 neu os ydych wedi profi'n bositif am COVID-19 yn ddiweddar. Gofynnwch am apwyntiad newydd.

### Gair i Gall

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ble rydych chi'n mynd.
- Gwiriwch a allwch fynd ag aelod o'r teulu neu ffrind gyda chi am gefnogaeth.

## 3 Cael profion

- Dylech dderbyn gwybodaeth am eich profion ac unrhyw baratoadau y mae'n rhaid i chi eu gwneud.
- Efallai y bydd angen i chi gael mwy nag un prawf ar ddiwrnodau gwahanol.

### Gair i Gall

- Gofynnwch sut y byddwch yn cael eich canlyniadau a faint o amser y bydd yn ei gymryd.
- Fel rheol ni fydd y person sy'n eich profi yn gallu dweud wrthych beth yw eich canlyniadau. Efallai y bydd rhaid i chi aros i siarad â'ch arbenigwr.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am wahanol fathau obrofionyn cruk.org/tests

## 4 Cael canlyniadau

- Bydd y meddyg sy'n trefnu'ch prawf yn egluro'ch canlyniadau. Eich arbenigwr neu rywun yn eu tîm yw hwn fel arfer.
- Efallai y bydd angen i chi gael profion pellach.
- Yng Nghymru, y nod yw i chi gael canlyniadau eich profion o fewn 28 diwrnod ar ôl eich atgyfeiriad gan feddyg teulu.

### Gair i Gall

- Os ydych wedi bod yn aros yn hwy na'r disgwyl am eich canlyniadau, cysylltwch ag ysgrifennydd eich arbenigwr.
- Os nad oes gennych fanylion cyswllt, gofynnwch i'ch meddygfa am gyngor.

Trosodd...

Cymru

# Eich atgyfeiriad brys oherwydd amheuaeth o ganser

CANCER RESEARCH UK

## Pa gwestiynau y gallaf eu gofyn?

### Weithiau mae'n anodd gwybod beth i'w ofyn i'ch arbenigwr.

Dyma ychydig o syniadau a allai ei gwneud yn haws:

- Os bydd fy symptomau'n gwaethygu, â phwy y dylwn i gysylltu?
- A ddylwn i newid y meddyginiaethau rwy'n eu cymryd?
- Pa brofion y bydd angen i mi eu cael?
- Faint o amser bydd y profion yn ei gymryd?
- Beth yw manteision a risgiau'r profion?
- Pwy fydd yn rhoi canlyniadau'r profion i mi?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn mynd i unrhyw apwyntiadau neu brofion?
- Os oes gen i gwestiynau ar ôl yr apwyntiad, pwy dylwn ei holi?

## Beth fydd yn digwydd os oes gen i ganser?

Rydym yn gwybod bod hwn yn gyfnod anodd a phryderus. Mae help a chefnogaeth ar gael i chi a'r rhai sy'n agos atoch chi. Byddwch yn cael llawer o wybodaeth gan eich gweithiwr allweddol neu dîm gofal iechyd.

I gael rhagor o wybodaeth am ganser a'i driniaeth ewch i cruk.org/about-cancer

## Beth fydd yn digwydd os nad oes gen i ganser?

Os na chewch ddiagnosis o ganser, mae'n dal yn bwysig i chi dalu sylw i'ch corff. Cysylltwch â 'ch meddyg teulu os byddwch yn sylwi ar unrhyw newidiadau newydd neu anarferol neu os na fydd eich symptomau'n gwella.

Mae dychryn iechyd yn gwneud i rai pobl feddwl am wella eu hiechyd yn gyffredinol, er enghraifft, cadw pwysau iach neu roi'r gorau i smygu. Mae'r pethau hyn yn lleihau'r risg o ganser. Gallwch hefyd ystyried sgriniad pan gewch eich gwahodd.

Os hoffech wybod rhagor ewch i cruk.org/health

## Nodiadau

Gallai fod o gymorth i chi wneud nodyn o unrhyw rifau cyswllt, amseroedd apwyntiadau, a chwestiynau yr hoffech eu gofyn.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am atgyfeiriadau brys yn cruk.org/urgentreferrals

## Ynghylch Ymchwil Canser y DU

Mae Ymchwil Canser y DU yn arloesi mewn ymchwil sy'n achub bywydau i ddod â'r dydd yn nes pan fydd modd gwella pob canser. O'n gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr i'n gwyddonwyr, meddygon a nyrsys, mae pawb yma i achub rhagor o fywydau ac i atal, rheoli a gwella pob canser. Os hoffech chi gefnogi ein gwaith, ffoniwch 0300 123 1022 neu ewch i'n gwefan cruk.org

## Gyda'n gilydd byddwn yn curo canser

Trusted Information Creator
Patient Information Forum

GIG CYMRU NHS WALES | Rhwydwaith Canser Cymru | Wales Cancer Network

HELPA FI i STOPIO – HELP ME QUIT 0800 085 2219

Hawlraint Cancer Research UK [Ymchwil Canser y DU] (2022).
Cyf: UR02_TestunynUnig Chwefror 2023. I'w adolygu erbyn: Chwefror 2025
Mae Cancer Research UK [Ymchwil Canser y DU] yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1089464), yr Alban (SC041666), Ynys Manaw (1103) a Jersey (247)